
# Adfer Mawndir Cymru drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd 2025-30







Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adfer Mawndir Cymru
Wales Peatland Action

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad




# Cyflwyniad

Mae mawndiroedd ymhlith y lleoedd mwyaf rhyfeddol yng Nghymru ac maent yn hanfodol i fyd natur a'r hinsawdd. Maent yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid prin y mae angen eu gwarchod ac maent yn storio mwy o garbon nag unrhyw fath arall o dir yng Nghymru, gan eu gwneud yn ganolog i'r ymdrechion i liniaru effeithiau newid hinsawdd.


Mae mawndiroedd iach yn rheoli allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn gwella ansawdd dŵr, ac yn rheoleiddio llif dŵr i afonydd a nentydd, gan helpu i leihau'r perygl o lifogydd. Maent hefyd yn gweithredu fel rhwystrau naturiol rhag tân, gan wneud tirweddau'n fwy gwydn i danau gwyllt.

Yn anffodus, heddiw yng Nghymru mae **tua 90% o'n mawndiroedd mewn cyflwr gwael.** Mae mawn sydd wedi'i ddifrodi yn rhyddhau carbon, yn diraddio ansawdd dŵr, ac yn colli ei allu i gynnal bywyd gwyllt. Heb weithredu ar frys, rydym mewn perygl o golli un o'n hadnoddau naturiol mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer bywyd gwyllt. Dyna pam mae adfer mawndiroedd yn flaenoriaeth genedlaethol, fel datrysiad ar sail natur i ystod eang o broblemau.






Mae tanau mawndiroedd yn dinistrio bioamrywiaeth a gallant ychwanegu cymaint â 5 tunnell o garbon i'r atmosffer. Mae adfer yn allweddol i feithrin gwydnwch, gyda mawndiroedd wedi'u hailwlychu o dan reolaeth bori gynaliadwy yn llai tebygol o losgi ac yn fwy tebygol o wrthsefyll tân os bydd yn digwydd.





Mae ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl hanfodol adfer a gwarchod mawndiroedd wrth gyflawni adferiad byd natur a gwydnwch ecolegol, datgarboneiddio, ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae'r achos dros barhau â'r rhaglen a'i hehangu wedi'i dderbyn a'i ymgorffori yn y Dangosyddion a Thargedau ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, a'r **Strategaeth Addasu i Newid Hinsawdd** diweddaraf.

Y **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF)**, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yw menter flaenllaw Cymru i adfer mawndiroedd a chydlynu camau gweithredu – gan fynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gyda'n gilydd drwy wella iechyd y cynefinoedd hyn.

Mae'r Rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a rheolwyr tir i ddod â'r tirweddau rhyfeddol hyn yn ôl yn fyw drwy greu'r amodau i fyd natur gael ffynnu.



Mursen Las Penfro
*Coenagrion mercurial*



Rhawn yr Ebol Bach
*Nitella tenuissima*



Llun: RC Gallon

Copyn Naid
*Heliophanus dampfi*


Yn ei phum mlynedd cyntaf, ac o dan faner Adfer Mawndir Cymru, daethpwyd â dros 3,600 hectar o fawndir i adferiad gweithredol. Gwnaed hyn yn bosibl trwy dystiolaeth gref, gweithredu ar y cyd, arbenigedd a rennir, ac ymrwymiad dwfn i adfer a gwarchod ein corsydd a'n ffeniau.

Bellach, rydym ar drothwy cyfnod newydd, cyfnod ar **gyflymder a graddfa fwy**. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf: nid yn unig adfer mwy o fawndir, ond cymryd y camau ehangach sydd eu hangen i amddiffyn a chynnal y tirweddau hyn er budd pobl, bywyd gwyllt, a'r hinsawdd. **Wrth i ni uwchraddio, nod y Rhaglen yw y bydd gennym y capasiti i adfer 1,800 hectar o fawndir bob blwyddyn erbyn 2030 a pharhau i gyflawni ar y raddfa honno**. Mae mawndiroedd iach yn fuddugoliaeth i fywyd gwyllt, yr hinsawdd, a dŵr. Maent yn rhan o'n treftadaeth naturiol ac yn hanfodol i ddyfodol Cymru.

***Rhywogaethau mewn Perygl*** **a rhywogaethau allweddol eraill sydd â chysylltiad cryf â mawndiroedd** →

| | |
|---|---|
| Trychfilod | 292 |
| Corynnod a chyngheiriaid | 20 |
| Mwsoglau a Llysiau'r Afu | 13 |
| Planhigion Fasgwlaidd | 9 |
| Ffyngau | 8 |
| Adar | 7 |
| Rhawn yr Ebol | 4 |
| Molysgiaid sy'n Gastropodau | 2 |
| Cennau | 1 |
| Molysgiaid Dwygragennog | 1 |
| Cramenogion | 1 |
| Cynffonnau Sbonc | 1 |
| Cyfanswm | 359 |

Drwy adfer, monitro, ac eiriolaeth, mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn helpu mawndiroedd i ffynnu – gan gefnogi natur, ansawdd dŵr, a chynnydd tuag at Sero Net.



# Adfer mawndiroedd



# Adfer mawndiroedd

Adfer mawndiroedd yw'r broses o atgyweirio mawndiroedd sydd wedi'u difrodi fel y gallant gynnal bywyd gwyllt unwaith eto, storio carbon, a rheoleiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr a dŵr. Mae adfer fel arfer yn cynnwys ailwlychu ardaloedd sydd wedi'u draenio, lleihau erydiad, adfer a rheoli llystyfiant, ac adfer mawndiroedd a oedd gynt wedi eu coedwigo. Mae adferiad yn gwbl ddibynnol ar gydweithio'n agos â thirfeddianwyr, ac mae monitro parhaus i olrhain cynnydd yn hanfodol. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn helpu i adfywio'r ecosystem hanfodol hwn a sicrhau ei gwydnwch hirdymor.

Mae ehangu'r Rhaglen o 2025 ymlaen yn sicrhau bod y dyluniad a'r gweithrediad yn adlewyrchu'r egwyddorion allweddol a'r themâu blaenoriaeth gweithredu a ganlyn:

## Ymdriniaeth y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

### Meithrin gwydnwch ecosystemau

Bydd meithrin gwydnwch yn flaenllaw ym mhopeth y mae'r Rhaglen yn ei wneud. Bydd gweithredu ar raddfeydd priodol yn hanfodol i hyn, ynghyd ag adfer cyfundrefnau hydrolegol, a sicrhau bod rheolaeth gynaliadwy yn effeithiol wrth leihau'r llwyth tanwydd ac felly'r risg o dân, wrth hefyd gynnal llystyfiant.

### Gweithio ar raddfeydd priodol

Bydd dyluniad gwaith adfer yn adlewyrchu unedau hydrolegol naturiol a lle bynnag y bo modd bydd mawndiroedd cyfan yn adlewyrchu pwysigrwydd sylfaenol prosesau sy'n gweithredu y tu hwnt i ymylon y gwlyptir, yn aml ar raddfa dalgylch cyfan.

### Integreiddio'r anghenion wrth adfer rhywogaethau mawndir blaenoriaethol

Mae gan dros 350 o rywogaethau mewn perygl gysylltiad cryf â mawndiroedd a byddwn yn ymgorffori mesurau penodol ar gyfer rhywogaethau trwy ddewis safleoedd, trwy ddylunio, a thrwy amserlennu'r cyfnodau gweithredu adfer.

# Ein ffocws

**Mae ein gwaith adfer yng Nghymru yn blaenoriaethu chwe thema gweithredu:**

Mae **erydiad mawn** yn gyffredin a bydd yn gwaethygu yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Mae'n niweidio cynefinoedd bywyd gwyllt a charbon hynafol sydd wedi'i storio, gan ychwanegu gwaddod a lliw at gyrsiau dŵr.

Rhwng 2020 a 2025, datblygodd y Rhaglen a'i phartneriaid ddulliau adfer llwyddiannus ar raddfa tirwedd i fynd i'r afael ag erydiad. Bydd hyn yn parhau ac yn ehangu i greu mawndiroedd sy'n barod i wrthsefyll erydiad niweidiol gallai ddeillio o newid hinsawdd.

Mae **draenio mawndir** yn gostwng lefelau trwythiad mawndiroedd ac yn arwain at golli rhywogaethau allweddol, ocsideiddio mawn, ac afliwio dŵr.

Bydd y technegau llwyddiannus o fyndio a blocio ffosydd ar raddfa fawr, a ddatblygwyd yn ystod y pum mlynedd cyntaf, yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth i adfer swyddogaeth mawndiroedd a lleihau'r risg o dân.







Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!

Mae angen **rheoli mawndiroedd yr ucheldir yn gynaliadwy** i fynd i'r afael â rhywogaethau trechol fel glaswellt y gweunydd, *Molinia*, sy'n arwain at golli rhywogaethau a mwy o risg tân.

Bydd y Rhaglen yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni cyfundrefnau pori a lefel dŵr priodol a sicrhau dyfodol hyfyw i'n hardaloedd mawndir mwyaf helaeth fel lleoedd sy'n bwysig i fyd natur, carbon, dŵr, a phobl.



Mae **rheoli mawndiroedd yr iseldir yn gynaliadwy** yn hanfodol i fynd i'r afael â diffyg rheolaeth, gorfaethu, a lefelau trwythiad is.

Mae cynllun estynedig y Rhaglen yn canolbwyntio ar gorsydd a ffeniau'r iseldir, gan adlewyrchu eu harwyddocâd penodol ar gyfer bioamrywiaeth, storio carbon, a gwella ansawdd dŵr.



Mae **adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo** yn cynrychioli'r cyfle mwyaf i gynyddu'r ardaloedd o fawndir iach mewn tirweddau a gafodd eu draenio a'u plannu mor ddiweddar â 50 mlynedd yn ôl.

Mae gwaith partneriaeth cryf wedi datblygu ar draws mawndiroedd a oedd gynt wedi eu coedwigo, a bydd hyn yn parhau ac yn cael ei ehangu. Mae ffocws cryf ar adeiladu gwydnwch trwy weithio ar raddfa fawr i gynnwys mawndiroedd wedi'u hailwlychu yn y dirwedd.

Mae ein **mawndiroedd sydd wedi'u haddasu fwyaf** yn rhyddhau'r lefelau uchaf o nwyon tŷ gwydr, a gallant effeithio ar gynefinoedd lled-naturiol cyfagos.

Bydd y Rhaglen yn gweithio gyda rheolwyr a pherchnogion tir i ddeall yn well y mawndiroedd sydd wedi'u haddasu'n helaeth, ac i archwilio opsiynau rheoli yn y dyfodol sy'n cefnogi nodau amgylcheddol a stiwardiaeth tir.





Er mwyn cyrraedd ein targed uchelgeisiol o adfer **1,800 hectar o fawndir y flwyddyn**, rydym yn meithrin sgiliau, yn buddsoddi mewn partneriaethau, ac yn ysgogi mwy o weithredu ar lawr gwlad i gyflawni ein chwe thema gweithredu blaenoriaeth.

Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!


Sut ydym yn gweithredu?

# Sut ydym yn gweithredu?

## Cynyddu capasiti staff ar gyfer cynllunio a chyflawni gwaith adfer

Er mwyn cynnal gwaith adfer ar raddfa fwy, rydym yn buddsoddi mewn capasiti staff, o fewn y Rhaglen a thrwy gefnogi partneriaid. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio a chyflawni mwy o waith ar lawr gwlad, wrth gryfhau cydweithio ar draws y sector ar yr un pryd.

Mae timau gweithredu pwrpasol yn cael eu sefydlu i wneud y canlynol:

- Sefydlu rhaglen gadarn o brosiectau adfer, trwy ddewis a chynllunio safleoedd ar sail tystiolaeth.
- Gyrru adferiad dan arweiniad y Rhaglen gyda chysondeb technegol a safonau uchel.
- Uwchraddio'r cymorth i bartneriaid, gan helpu i dyfu capasiti ledled y sector a gwella canlyniadau adfer.

Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ac yn gosod y sylfaen ar gyfer gweithlu adfer mwy cydweithredol a galluog ledled Cymru.



# Datblygu gweithlu contractwyr

Mae cyflawni adferiad ar raddfa fawr yn dibynnu ar rwydwaith cryf o gontractwyr medrus yn trin y tir. Mae'r ymarferwyr safle a chloddio yn ganolog o ran troi'r cynlluniau yn gamau gweithredu, llunio tirweddau, ac adfer mawndiroedd.

I gefnogi hyn, mae'r Rhaglen wedi penodi Swyddog Datblygu'r Gweithlu i feithrin perthnasoedd parhaol â'r sector, llywio caffael trwy fewnwelediad busnes go iawn, a nodi anghenion hyfforddi. Bydd y rôl hon yn helpu i feithrin sgiliau, ehangu capasiti, a sicrhau bod contractwyr yn barod i gyflawni gwaith adfer o ansawdd uchel ledled Cymru.

Mae'r Rhaglen hefyd wedi datblygu fframwaith agored wyth mlynedd i sicrhau adnoddau contractwyr ar gyfer prosiectau adfer mawndir ar raddfa fawr. Mae'n canolbwyntio ar adferiad hydrolegol, clirio llystyfiant, a pharatoi safleoedd. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio ar gyfer cyflawni ond hefyd ar gyfer meithrin capasiti a phartneriaethau hirdymor. Mae'n cynnwys opsiwn tendro sy'n cefnogi contractwyr newydd gyda hyfforddiant a dilyniant, gan sicrhau datblygu sgiliau a chydnerthedd y sector.



# Cyllido eraill i gyflawni gwaith adfer

Mae dull cydweithredol a chyflawni drwy eraill yn allweddol wrth weithredu'r Rhaglen ar raddfa fwy. Dyma'r prif opsiynau cyllid i gefnogi hyn:

- **Mae Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (CSDd/SAF)** yn un o fecanweithiau ariannu craidd y Rhaglen, wedi'i gynllunio i gefnogi cyflawni gwaith blaenoriaeth CNC trwy bartneriaid strategol sy'n gweithio ar raddfa tirwedd. Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen wrth weithredu ar raddfa fwy i ddarparu mwy o sicrwydd i bartneriaid, cynyddwyd y cyllid a chyflwynwyd strategaeth grantiau newydd ar gyfer 2025–2028. Mae'r newid hwn, i dymor ariannu tair blynedd, yn galluogi cynllunio a chyflawni tymor hwy ar gyfer partneriaid y Rhaglen.
- Mae **Grant Adfer Mawndir** cystadleuol, sy'n agored ar adegau rheolaidd, yn fecanwaith ariannu allweddol arall o dan y Rhaglen. Mae'n cefnogi **datblygu** a **chyflawni** prosiectau adfer mawndiroedd ledled Cymru ac mae ar agor i ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys tirfeddianwyr preifat, cyrff cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol.



Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!

# Gweithredu ar sail tystiolaeth

Mae ehangu'r Rhaglen yn caniatáu mwy o gapasiti i angori'r Rhaglen, a gwaith ehangach y bartneriaeth Adfer Mawndir Cymru, i waith monitro, tystiolaeth ac adrodd cadarn. Bydd timau Monitro, Tystiolaeth a Data pwrpasol yn cydlynu ac yn gyrru galluogrwydd y sector. Yn barhaus, mae **Map Data Mawndiroedd Cymru** yn rhannu cynnydd cyflawni'r Rhaglen a haenau tystiolaeth gyda'r cyhoedd.

# Integreiddio â mentrau a chynlluniau eraill

Fel y bo'n briodol, bydd y Rhaglen yn parhau i gyfrannu, cefnogi neu integreiddio â mentrau a chynlluniau eraill.
Er enghraifft, bydd y Rhaglen yn:

- cynllunio capasiti i ddarparu cymorth arbenigol ac, mewn rhai achosion, gallu i gyflawni ar ran cynlluniau allweddol eraill, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, a Ffermio Bro.
- archwilio opsiynau cyllid gwyrdd, fel gyda Cod Mawndir y DU a chynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) eraill.
- cydblethu'n gweithredu ag eraill yng Nghymru, y DU, ac yn fyd-eang lle mae'n berthnasol i fawndir, megis y ffocws ar Rywogaethau mewn Perygl yng Nghymru a Rhaglen Mawndiroedd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn y DU a thu hwnt.



Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!

# Diogelu a rheoli mawndir yn effeithiol

Mae amddiffyn mawndiroedd rhag colled, difrod a dirywiad pellach yn ategiad hanfodol i adferiad. Wrth i'r Rhaglen ehangu, rydym yn cynyddu ein gallu i gefnogi'r gwaith hwn – gan ddarparu mwy o staff mewn rolau ymgynghorol, ehangu arbenigedd cenedlaethol, a chynnig cyngor strategol i'r llywodraeth.

# Rheoli mawndiroedd ar gyfer y dyfodol

Mae amddiffyn mawndiroedd rhag dirywiad pellach yn gonglfaen y Rhaglen. Fel y cynghorydd cenedlaethol i'r llywodraeth a chartref arbenigedd mawndiroedd yng Nghymru, mae'r Rhaglen yn chwarae rhan ganolog wrth lunio a llywio strategaethau rheoli tir.

Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a mentrau eraill sy'n dylanwadu ar sut mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i warchod. Mae'r Rhaglen yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod blaenoriaethau mawndiroedd wedi'u hymgorffori mewn polisi ac yn weithredol. O gyfundrefnau pori i ymyriadau hydrolegol, mae rheolaeth effeithiol yn helpu mawndiroedd i barhau i storio carbon, i gynnal bywyd gwyllt, a darparu gwasanaethau ecosystemau hanfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.





Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!

# Cefnogi diogelu mawndiroedd drwy'r system cynllunio datblygu

Mae pwysau datblygu yn her gynyddol i briddoedd a chynefinoedd mawn. I helpu i fynd i'r afael â hyn, mae'r Rhaglen yn darparu arbenigedd technegol i gefnogi ymatebion statudol CNC i geisiadau cynllunio a chynlluniau datblygu. Rydym hefyd yn darparu arweiniad a hyfforddiant.

Mae'r Rhaglen yn sicrhau bod gwerth mawndiroedd yn cael ei gydnabod a'i ystyried wrth wneud penderfyniadau. Mae'r dull gwybodus hwn yn cefnogi gwarchod tirweddau sydd wedi cymryd miloedd o flynyddoedd i ffurfio – ac sy'n hanfodol i nodau hinsawdd a byd natur Cymru. Mae pob penderfyniad cynllunio sy'n ystyried mawn yn gyfle i ddiogelu'r cynefinoedd anhepgor hyn, ac mae'r Rhaglen yn darparu'r dystiolaeth, y cyngor, a'r cymorth sydd eu hangen.

# Polisi gyda phwrpas: llunio dyfodol mawndiroedd

Mae mawndiroedd yn eistedd ar groestoriad hinsawdd, bioamrywiaeth, a pholisi defnydd tir. Ac eto, mae rhwystrau polisi presennol yn ffrwyno cynnydd. Mae'r Rhaglen yn gweithio'n weithredol i ddatrys y problemau hyn, er mwyn sicrhau fod mawndiroedd yn cael eu gwarchod drwy air a gweithred.

O ddylanwadu ar strategaethau lliniaru hinsawdd i ymgorffori blaenoriaethau mawndiroedd mewn cynlluniau adfer byd natur, mae cyngor polisi yn arf pwerus ar gyfer diogelu mawndiroedd.




Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!


Y Rhaglen yn darparu cyngor polisi
Diweddariad i bolisi CNC
Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd
Polisi ailstocio coetiroedd
Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
Ardaloedd Draenio Mewnol
Mentrau'r DU, Ewrop a byd-eang
Arall...
Echdynnu mawn
Polisi llosgi
Amgylchedd hanesyddol
Talu am Wasanaethau Ecosystemau
Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Tystiolaeth, monitro ac adrodd



# Tystiolaeth, monitro ac adrodd

Mae tystiolaeth, monitro ac adrodd yn hanfodol i sicrhau bod ymdrechion i adfer, adsefydlu, a diogelu mawndiroedd yn effeithiol, yn atebol ac yn addasol.

Mae gennym staff ychwanegol i wneud y gwaith hwn a thîm pwrpasol ar gyfer gwaith monitro. Mae'r arbenigedd hwn yn cefnogi polisi, penderfyniadau ariannu, a dealltwriaeth wyddonol, wrth ddangos manteision ehangach fel storio carbon, bioamrywiaeth, ac ansawdd dŵr.

Mae gwaith tystiolaeth y Rhaglen wedi'i drefnu'n bedair thema allweddol:

**Thema 1**
**Mapio Mawndiroedd**
Datblygu Map Mawndiroedd Cymru i olrhain dosbarthiad, dyfnder, cyflwr, a gwasanaethau ecosystemau

**Thema 2**
**Deall y Pwysau**
Nodi bygythiadau, pwysau, a cholledion i arwain ymyriadau wedi'u targedu

**Thema 3**
**Targedu'r Gweithredu**
Dylunio'r amddiffyn ac adfer i sicrhau'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf posibl

**Thema 4**
**Gweithio ar y Cyd**
Rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda phartneriaid ledled y DU

# Meysydd allweddol i'w datblygu yn y tymor byr:

- Datblygu cynllun amlflwyddyn wedi'i gostio ar gyfer diweddaru **Map Mawndiroedd Cymru** a'r metrigau adrodd.
- Datblygu strategaeth dystiolaeth gynhwysfawr.
- Datblygu cynllun monitro cydweithredol ar gyfer Cymru.



# Ymgysylltiad ehangach ac atebolrwydd

# Ymgysylltiad ehangach ac atebolrwydd

## Gweithredu drwy bartneriaeth

Mae partneriaethau'n allweddol ar gyfer diogelu, adfer a rheoli mawndiroedd, felly mae'r Rhaglen yn arwain gyda chydlynu. Y perchnogion tir yw gwarcheidwaid y 4% gwerthfawr o Gymru sy'n fawndir. Gyda'n gilydd, gallwn symud ymlaen i adfer mawndir sydd wedi'i ddifrodi, sy'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol. Ar ôl ei adfer, bydd y mawndir yn dod yn ddalfa garbon unwaith eto, yn gynefin gwerthfawr i rywogaethau prin, ac yn dirwedd sy'n helpu i leihau'r perygl o lifogydd a lledaeniad tân. Mae'r partneriaethau sydd eu hangen arnom i lwyddo yn cynnwys perchnogion a rheolwyr tir, asiantaethau cyflawni, ymarferwyr adfer, contractwyr, arbenigwyr tystiolaeth, yn ogystal â Llywodraeth Cymru fel cyllidwr ac arweinydd polisi, ac CNC fel rheolwr a galluogwr.

## Grwpiau cydlynu

Gall grwpiau partneriaeth strategol gydlynu'n effeithiol, gan dargedu problemau, a chyflymu'r gwaith adfer gyda phrosesau tryloyw. Mae'r Rhaglen yn cydlynu'r grwpiau Adfer Mawndir Cymru hyn i wneud y canlynol: gwella'r gweithredu adfer, cyflymu graddfa'r gwaith adfer, mireinio gwaith monitro a chasglu tystiolaeth, a diogelu a chynnal mawndiroedd iach.

## Hysbysu ac ymgysylltu

Mae cefnogaeth y cyhoedd drwy ledaenu gwybodaeth gywir wedi bod yn bwysig i'r Rhaglen. Bydd y Rhaglen, gyda phartneriaid Adfer Mawndir Cymru, yn parhau i dynnu sylw at gyfleoedd adfer ac adrodd yn gywir gyda thryloywder ar bob proses.



# Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn hwb i Adfer Mawndir Cymru

**Allanol: rhanddeiliaid / rhwydweithiau**
Cyfeiriad & chyfnewid arferion gorau

Partneriaethau rhanbarthol

- Llywodraeth Cymru – cyfeiriad a chyllid
- Grŵp Partneriaid **Gweithredu Strategol** Adfer Mawndir Cymru (gweithredu cydlynol)
- Rhwydwaith **Ymarferwyr Gweithredu** ar Leoliad Adfer Mawndir Cymru (arfer dda & cofnodi / rhannu sut i fynd ati)
- **Grŵp Cyflawni Pedair Rhaglen Genedlaethol ar Fawndiroedd** – Y Rhaglen wedi'i gychwyn ac yn cynrychioli Cymru (ffocws technegol, e.e. safonau monitro cyffredin)
- Rhaglen a rhwydwaith mawndiroedd DU yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur **(IUCN)** – RhWGF yn cynrychioli Cymru
- **Grŵp Monitro** Adfer Mawndir Cymru (ar gyfer monitro cydgysylltiedig)
- **Grŵp Tystiolaeth** Adfer Mawndir Cymru (adnabod cyfleoedd cydweithio ymchwil)
- **Datganiad Ardal Allanol / Rhanddeiliaid Pobl & Lleoedd** (datblygu trwy CNC a gweithgareddau timau Datganiad Ardal – gweler gyferbyn)

**Y Rhaglen**
yn arwain, yn cychwyn, yn hwyluso, yn cofnodi

**Adfer Mawndir Cymru**

Yn ogystal, mae'r Rhaglen yn cyfrannu arbenigedd mawndiroedd i lawer o grwpiau **allanol a mewnol** eraill.

**Rhanddeiliaid mewnol neu â budd uniongyrchol** Rhannu gwybodaeth a lledaenu arferion gorau

- **Bwrdd CNC, Prif Weithredwr, a'r Tîm Uwch-reolwyr** – adrodd & chael cyfeiriad strategol
- **Bwrdd y Rhaglen** – adrodd a chyfeiriad
- **Partneriaid Cyflenwi a Rhanddeiliaid** – drwy lansio grantiau, dyfarnu contract, briff ar safle (i hyrwyddo arfer dda wrth gyflawni)
- **Contractwyr** – allgymorth, canllawiau fframwaith, hyfforddiant (sicrwydd bod contractwyr ac offer ar gael, costau cystadleuol, darpariaeth o ansawdd, datblygu'r sector)
- **Grŵp Gweithredu Mawndir CNC** (y RhWGF yn arwain ar liflinio a safoni dull gweithredu CNC ar brosiectau adfer mawndir)
- **Datganiad Ardal / Pobl a Lleoedd** (rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr CNC ar gyfer cyfleoedd a strategaethau byd natur lleol cydlynol)
- **Swyddogaethau / staff CNC sydd â diddordeb mewn adfer mawndir** Adroddiadau blynyddol, cyflwyniadau a cyfathrebu, e.e. gweminar fewnol CNC

Ymgysylltiad ehangach ac atebolrwydd

Mae'n cymryd tua 1,000 o flynyddoedd i fyd natur greu un metr o fawn – 1mm bob blwyddyn!



# Casgliad

Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn pontio i gyfnod trawsnewidiol a ddiffinnir gan uchelgais, cydweithrediad, a graddfa. Wrth i ni adeiladu'r capasiti i adfer 1,800 hectar o fawndir yn flynyddol, mae ein hymrwymiad i ddiogelu ac adfywio'r tirweddau hanfodol hyn yn parhau yn gadarn.

Mae'r egwyddorion a'r themâu blaenoriaeth, a amlinellir yn y ddogfen hon, yn gosod y sylfaen ar gyfer gweithredu, ond dim ond y dechrau ydynt. Wrth i dimau newydd ymgartrefu mewn rolau ac wrth i bartneriaethau gryfhau, bydd cynlluniau cyflawni mwy manwl a chamau gweithredu wedi'u targedu yn dilyn. Bydd y rhain yn sicrhau bod y Rhaglen yn parhau i esblygu'n ymatebol, wedi'i harwain gan dystiolaeth, arbenigedd, a'r nod cyffredin o sicrhau dyfodol gwydn i fawndiroedd Cymru.